**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**9fed Hydref 2006**

**GWEITHDREFN CWYNION – CAM 3**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Cytuno ar drefniadau ymdrin yng ngham 3 o'r weithdrefn gwynion, ac argymell i'r Awdurdod Tân fabwysiadu'r trefniadau hyn ar gyfer y dyfodol.

**Cefndir**

**2.** Mabwysiadwyd y weithdrefn gwynion gan yr Awdurdod yn 1996. Mae'n rhestru tri cham, a'r trydydd oedd y gallai'r person ofyn i'r mater gael ei ddwyn i sylw 'r Awdurdod Tân, sef pwyllgor o gynghorwyr etholedig. Bydd y Pwyllgor hwn yn ystyried y mater ac yn cymryd y camau priodol i ddatrys y gŵyn. Mae'r polisi'n datgan yn glir na fydd y weithdrefn gwynion yn cael gwared ar unrhyw hawl sydd gan yr unigolyn i ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn yr Awdurdod – byddai hyn hefyd yn cynnwys yr hawl i gwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus petai honiad o gamweinyddu.

**3.** Mae Dogfen Polisïau a Gweithdrefnau Gweinyddol y Gwasanaeth (SAPPO) dyddiedig Awst 2005 a thaflen i'r cyhoedd am y weithdrefn gwynion yn adlewyrchu'r polisi hwn. Mae'r ddau'n cyfeirio at y gŵyn yn mynd yn uniongyrchol i'r awdurdod tan ac y bydd yr achwynydd yn derbyn ymateb ysgrifenedig.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Nid oes yr un o'r dogfennau hyn yn rhestru'n fanwl sut y byddid yn ymdrin a chwyn yn y trydydd cam. Nid oes yr un gŵyn wedi cyrraedd y cam hwn er bod cais am wrandawiad trydydd cam a'r cyfle i annerch aelodau'r Awdurdod Tân yn bersonol wedi ei dderbyn yn ddiweddar.

**Cyngor**

**5.** Mae'n rhaid llunio gweithdrefn sy'n gweithredu ysbryd y polisi sy'n bodoli. Dyma gyflwyno y byddai'n afresymol disgwyl i wrandawiad o'r fath gael ei gynnal gyda'r awdurdod llawn neu hyd yn oed y Panel Gweithredol. Yr arfer mewn cyrff llywodraeth leol eraill yw cael is-bwyllgor bychan o aelodau i wrando ar apeliadau neu gwynion. Argymhellir cael is-bwyllgor o dri aelod o'r Panel Gweithredol at y diben hwn.

**6.** O ran y weithdrefn yn y gwrandawiad, nid oes yr un o'r dogfennau hyn yn datgan yn benodol y bydd gan yr achwynydd yr hawl i fod yn bresennol nac i siarad. Fodd bynnag, fe ellid ystyried hyn yn fater o arfer da, gan y gallai eithrio'r achwynydd o'r gwrandawiad roi'r argraff na fyddai'r gwrandawiad yn un teg ac y byddai'r aelodau yn cael eu dylanwadu'n ormodol gan y swyddogion. Nid yw'r cyfeiriadau at gwynion yng ngham 3 yn mynd yn uniongyrchol at yr aelodau o anghenraid yn gorfod cael ei ddehongli i olygu y rhoddir yr hawl i'r achwynydd fynychu ac annerch y gwrandawiad, gan y gellid ymdrin â chwyn trwy ohebiaeth ysgrifenedig.

**7.** Wedi pwyso a mesur, argymhellir y dylai'r gwrandawiad gael ei seilio'n bennaf ar ddatganiad ysgrifenedig gan yr achwynydd ac ymateb ysgrifenedig gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cynnal y Gwasanaethau. Byddai'r datganiadau hyn yn cael eu rhannu â'r ddwy ochr cyn y gwrandawiad. Er y byddai'r

achwynydd a'r swyddog yn mynychu'r gwrandawiad, at ddiben ateb unrhyw gwestiynau gan yr aelodau ynghylch eu datganiadau ysgrifenedig fyddai hyn. A chymryd bod y Panel yn cytuno â'r dull hwn, y drefn ar gyfer gwrandawiad fyddai:

- cyflwyniadau;
- aelodau o'r is-bwyllgor yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau i'r achwynydd ynghylch yr hyn sydd yn ei ddatganiad ysgrifenedig;
- aelodau o'r is-bwyllgor yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau i swyddog y gwasanaeth tân ac achub ynghylch ei ymateb ysgrifenedig;
- yr achwynydd a'r swyddog o'r gwasanaeth tân ac achub yn mynd allan tra bo'r is-bwyllgor yn ystyried y mater ac yn dod i gasgliadau;
- yr is-bwyllgor yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r achwynydd am ei benderfyniad.

**Argymhellion**

**8.** Gwahodd y Panel Gweithredol i:

**8.1** gytuno i benodi is-bwyllgor o dri aelod i wrando ar gŵyn yn y trydydd cam;

**8.2** cytuno ar drefn y gwrandawiad fel sydd ym mharagraff 7;

**8.3** argymell i'r Awdurdod Tân ei fod yn mabwysiadu'n ffurfiol y trefniadau hyn ar gyfer gwrando unrhyw gŵyn yng ngham 3 yn y dyfodol.